

Cyfleusterau croesfan i gerddwyr Whitchurch Road / Flaxland Avenue

Disgrifiad o'r Cynniq Cynllun

Mae'r cynllun uchod yn berthnasol i Whitchurch Road, yn gyfagos â'r gyffordd â Flaxland Avenue. Mae wedi ei ddatblygu er mwyn gwella diogelwch a hygyrchedd i gerddwyr ac fe'i hariennir gan Gronfa Cyllid Cyfalaf y Cyngor. Mae nod hefyd o ostwng nifer yr anafiadau ar y ffordd, gwella hygyrchedd yn y gymuned ac annog mwy o gerdded a beicio. Hefyd, bydd y cynllun yn diogelu grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae'r cynllun wedi ei adnabod a'i ddatblygu o Gynllun Dyfodol y Cyngor lle nodwyd mai'r brif broblem o ran Diogelwch ar y Ffordd oedd pa mor agored i niwed yr oedd cerddwyr wrth groesi Whitchurch Road. Mae hyn oherwydd bod llawer iawn o draffig a sefyllfa gyffredinol y traffig, bu un ddamwain lle anafwyd rhywun fymryn yn y gyffordd dros gyfnod o bum mlynedd.

Rydym wedi llunio cynllun a fydd yn:

- Ei gwneud yn haws i gerddwyr groesi'r ffordd ar Whitchurch Road ac ar draws Flaxland Avenue;
- Gostwng cyflymder y traffig wrth gyrraedd y safle;
- Gwella'r ffordd at y safle bws trwy wneud ardal droedffordd ac ymyl lôn fysus letach; a
- Helpu cerbydau sy'n gadael Flaxland Avenue trwy ei gwneud yn haws iddynt weld o ganlyniad i'r ardal droedffordd letach/allan i'r ffordd.

Bydd y cynllun yn cynnwys:

Rhoi Croesfan Sebra Ddyrchafedig ar draws Whitchurch Road ac ardal droedffordd letach/allan i'r ffordd. Rhoi Croesfan Nas Rheolir well ar draws Flaxland Avenue i helpu cerddwyr sy'n cerdded ar hyd Whitchurch Road. Bydd yr ardal droedffordd letach hefyd yn gwneud y pellter i'w groesi'n fyrrach ar gyfer cerddwyr yn ogystal a gwella faint mae cerbydau'n ei weld wrth ddod o Flaxland Avenue oherwydd y bydd yr arwyddion "ildio'r ffordd" yn symud ymlaen.

Ni fydd hyn yn effeithio ar y manau parcio, fodd bynnag bydd yr ardal droedffordd lydan yn diogelu pen y manau parcio.

Bydd y gwelliannau'n gostwng cyflymder y traffig ac yn gwella'r groesfan i gerddwyr yn y manau y nodwyd bod galw ar gyfer hynny. Bydd hyn o fudd i'r gymuned a staff sy'n mynd i'r ysbyty ac yn defnyddio'r safle bws.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Bwrdd Arafu. Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddirchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolog o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros groesfan pâl. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â rhwystrau ymwithiol sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Cyrbau Gostyngedig. Hon yw'r groesfan cerddwyr symlaf oll, lle gostyngir y lefel rhwng y palmant a'r ffordd gymaint â phosibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pramiau a defnyddwyr eraill sydd ag anawsterau symud. Gosodir pafin botymog arnynt i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrb yn gwahanu'r llwybr cerdded oddi wrth y ffordd.

Croesfan Sebra Ymwithiol. Croesfan sebra ag arni ddarnau ymwithiol er mwyn culhau'r ffordd i'r lled lleiaf ar gyfer traffig dwy ffordd. Mae hyn yn gwella gwelededd i ac o gerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan. Gall bwrdd arafu fod yn rhan o'r cynllun hefyd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. Croesfan sebra sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar gyffordd fwrdd, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Rhwystrau Ymwithiol. Darn o lwybr troed sydd wedi ei ledu. Gellir eu defnyddio mewn sawl gwahanol sefyllfa, e.e. wrth ail-lunio cyffyrdd, diffinio ardaloedd parcio neu leihau'r pellter sydd i gerddwyr groesi'r ffordd. Gallant wella gwelededd i ac o gerddwyr neu yrwyr sy'n aros wrth gyffordd.

Rhwystrau Ymwithiol wrth Gyffordd. Y defnydd o rwystrau ymwithiol wrth gyffordd. Yn y lleoliadau hyn maen nhw'n rhwystro cerbydau rhag cael eu parcio'n rhy agos at gyffordd, gan wella gwelededd, a gallant hefyd gynnig parcio gwarchoddedig.

Parcio Gwarchoddedig. Dyma lle bydd rhwystr ymwithiol ar ddiwedd ardal barcio. Mae'r rhwystr ymwithiol yn gwarchod cerbydau sydd wedi eu parcio rhag gwrthdrawiadau.

Ardal Barcio. Darn o ffordd sydd fel arfer tu ôl i linell wen doredig, ond ni ddylid drysu rhwng hyn a lôn seiclo. Bydd rhai ardaloedd parcio ond yn gwahaniaethu rhwng yr ardal ar gyfer parcio a'r ardal i'w defnyddio gan draffig heb gyfyngu'r amseroedd parcio na nodi pa gerbydau all barcio yno. Rheoleiddir ardaloedd eraill gan Orchymynion rheoleiddio traffig sy'n cyfyngu'r defnydd o'r ardal trwy osod arwyddion cyfagos ac mewn rhai achosion caiff yr ardal ei gwahanu'n gilfannau parcio unigol.

Lleihau Gofod y Ffordd. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod gyrrwyr yn gyrru'n arafach os yw'r ffordd yn edrych yn gulach neu'n fwy cymhleth. Gelwir mesurau a gyflwynir i gyflawni'r effaith hwn yn leihau gofod y ffordd. Gellir gwneud hyn drwy roi marciau ar y ffordd, gan gynnwys lonydd seiclo, rhith-ynyoedd, ynysoedd traffig, rhwystrau ymwithiol a mesurau eraill, un ai ar eu pennau'u hunain neu mewn amrywiol gyfuniadau.

Camera Diogelwch (Cyflymder). Darperir y rhain gan y Bartneriaeth Camerâu Diogelwch leol a gellir eu defnyddio yn unig mewn lleoliadau sy'n bodloni meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni chânt eu hystyried yn nodweddion arafu traffig gan nad oes ganddynt unrhyw effaith ffisegol ar ymddygiad gyrru.


Bolard. Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown below.

A Proud Capital
Prifddinas Falch



A full consultation pack is available at www.cardiff.gov.uk/transportprojects.
Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk, or telephone 029 2087 3250 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **30/09/2016**.



Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun isod.

Mae pecyn ymgynghori llawn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects. Fel arall, e-bostiwch TransportProjects@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3250 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **30/09/2016**.